Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	4ydd o Orffennaf 2008
Amser:	10:00 (Paned ar gael o 09:45)
Lleoliad:	Gwesty'r Celt, Caernarfon

Mynychwyr:

Aelodau'r Grŵp Llywio neu eilyddion enwebedig

Sylwebyddion

Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth

Gwesteion:

Gerallt Llewelyn Jones	Menter Môn

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd - 4ydd o Orffennaf 2008

RHAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

03. Cofnodion Grŵp Llywio 6 o Fehefin 2008 (amgaeedig - *papur glas*):
    - Cywiro a chadarnhau
    - Unrhyw fater nad yw'n ymddangos ar y Rhaglen

04. Is-Grwpiau'r Bartneriaeth - adroddiad (amgaeedig - *papur melyn*):
    - Llwyddo'n Lleol
    - Cefnogi Busnes
    - Sgiliau
    - Datblygu Gwledig
    - Adfywio Cymunedol

05. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru:
    - adroddiad gweithgaredd (amgaeedig - *papur gwyrdd*)

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL

06. Diweddariad o Gynllun Datblygu Gwledig - Cyflwyniad gan Dylan Rhys Griffiths, Cyngor Gwynedd (Papur Cefndir - Copi o Adroddiad ar brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig yn amgaeedig – *papur lelog)*

07. Cyflwyniad gan Gerallt Llewelyn Jones, Menter Môn – Cais Cydgyfeiriant Cwmni Annog ar ran Awdurdodau Lleol Gogledd Orllewin Cymru (Blaenoriaeth 5 Them 2 – Datblygu Economaidd Cymunedol)

08. Diweddariad ar Strategaeth Datblygu Gogledd Orllewin Cymru

09. Unrhyw fater arall

10. Dyddiad a lleoliad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio

Cofnodion Grŵp Llywio 06 Mehefin 2008

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	6 Mehefin 2008
Amser	13:00 - 16:00
Lleoliad:	Galeri, Caernarfon

Yn bresennol

<u>Cynrychiolwyr Sector Preifat</u>		
Dewi Lewis	*Cadeirydd*	Siop Dewi
Gwynedd Watkin		Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Tim Knight		Safle Datgomisiynu Trawsfynydd
Geraint Wyn Parry		Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Ann Lloyd Jones		Twristiaeth Gogledd Cymru
Evie Wyn Jones	(*Dirprwy)*	Busnes Eryri Cyf.
John Alan Morris	*(Dirprwy)*	Ymgynghorwyr J. Morris
Siân M. Williams		Griffith Williams a'i Gwmni
John Idris Jones		Magnox Gogledd Cymru
<u>Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol</u>		
Bethan Russell Owen		Mantell Gwynedd
Catrin Lloyd Perry		Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Coleg Harlech
Alex Badley		Gwynedd Gynaladwy
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cymunedol</u>		
Y Tad Deiniol		Yn Ein Blaenau
Godfrey Northam		Cynghorau Cymuned
Llŷr Huws Gruffydd		Menter a Busnes
John Isgoed Williams		Trawsnewid
<u>Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus</u>		
Emyr Williams		Parc Cenedlaethol Eryri
David Joyner		Prifysgol Bangor
<u>Gwahoddedigion</u>		
Catrin Roberts		Llywodraeth Cynulliad Cymru
John Adshead		Llywodraeth Cynulliad Cymru
<u>Swyddogion Gweinyddol (Cyngor Gwynedd)</u>		
Llŷr B. Jones		Uwch Reolwr yr Economi ac Adfywio
Siân P Jones		Rheolwr Marchnata a Gofal Cwsmer
Nia Davies		Rheolwr Polisi a Pherfformiad
Mirain Gwyn		Swyddog Buddsoddiad Busnes ac Asedau
Rhys Evans		Prif Swyddog Ewropeaidd
Gwenda Roberts		Swyddog Gwasanaethau Busnes

ADRAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Trefor Wyn Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Eiddwen Borland, Iola Williams (Gyrfa Cymru), Menna Jones (Antur Waunfawr), Jan Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Sioned Rees (Llywodraeth Cynulliad Cymru), James Goodman (Canolfan Reolaeth Gogledd Orllewin Cymru), Lawrence Manley, John Lloyd, Fred Foskett (Rhwydwaith Busnes Gwynedd), Sian Lloyd Roberts, Nia Swann Bowden, Ann Owen, Colin Morris, Sioned Williams, Dylan Griffiths, Catrin Thomas ac Iwan Trefor Jones (Cyngor Gwynedd).

Rhannwyd rhaglen ddiwygiedig i'r Aelodau.

Nodwyd dymuniad y Grŵp Llywio i ddymuno gwellhad buan i Sian Lloyd Roberts wedi ei damwain ddiweddar.

02. Datganiadau Diddordeb Personol

Dim

03. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2008

Diwygio a chadarnhau

Unrhyw fater nad oedd ar agenda cyfarfod heddiw

Trafodaeth:

i. Nodwyd fod Llŷr Huws Gruffydd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

ii. Nodwyd fod diweddariad am waith Goriad Gwyrdd Eryri wedi ei dderbyn gan yr ysgrifenyddiaeth ac fe'i dosbarthwyd i'r aelodau yn ystod y cyfarfod.

iii. Nodwyd y cysylltwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â'r gronfa arian cyfatebol a dargedwyd. Roedd y trafodaethau'n parhau. Hyd yma nid oes unrhyw newid yn y dull sgorio a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Grŵp Llywio yng Ngorffennaf.

iv. Nodwyd fod yr ysgrifenyddiaeth, yn y cyfarfod hwn, wedi dosbarthu rhestr ddiwygiedig o'r prosiectau a gynigiwyd yn Seminar Pwyllgor Craffu Datblygu Cyngor Gwynedd (26 Chwefror 2008). Roedd yn cynnwys manylion cyswllt y swyddogion sy'n arwain pob prosiect unigol.

v. Nodwyd mai fersiwn Gymraeg o'r sylwadau ar y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth ddrafft a gynhwyswyd gyda phapurau'r cyfarfod. Rhannwyd y fersiwn Saesneg yn y cyfarfod.

C*asgliadau*:

vi. **Cytunwyd** i gynnwys enw Llŷr Huws Gruffydd ymhlith y rhestr o enwau'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

vii. **Cytunwyd** fod y cofnodion yn gywir.

Tasgau:

a) Diwygio cofnodion cyfarfod 4 Ebrill 2008 i gynnwys enw Llŷr Huws Gruffydd ymhlith y rhai a oedd yn bresennol.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

04. Is Grwpiau'r Bartneriaeth

Trafodaeth:

i. Nodwyd nad oedd cydlynwyr yr Is-Grŵp yn medru mynychu'r cyfarfod hwn oherwydd ymrwymiadau eraill. Dosbarthwyd bwletinau yn diweddaru aelodau'r Grŵp Llywio am waith yr Is-Grwpiau gyda phapurau un o eitemau'r cyfarfod hwn. Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ysgrifenyddiaeth.

Trafodaeth: Datblygu Gwledig

ii. Nodwyd fod ymatebion y Bartneriaeth i gwestiynau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â Chynllun Datblygu Gwledig Gwynedd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Adroddwyd mai byr oedd yr amser a ganiatawyd i gyflwyno ymatebion a threfnwyd cyfarfod o'r Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Trafodaeth: Is-Grŵp Busnes

iii. Nodwyd y bydd y grŵp yn cyfarfod nesaf ar 1 Gorffennaf 2008.

iv. Nodwyd argymhellion y Grŵp Llywio ynglŷn â'r angen i hyrwyddo llwyddiant y Pecyn Datblygu Busnes – cyfnod 2 yn y Sir.

v. Nodwyd y drafodaeth ar bwysigrwydd grantiau i fusnesau bach yng Ngwynedd a phryderon y Grŵp Llywio ynghylch dyfodol grantiau a manteision i fusnesau dan y rhaglenni Cydgyfeiriant.

vi. Nodwyd bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i aildrefnu'r gwasanaeth Llygad Busnes. Bydd aelodau'r Grŵp Llywio'n derbyn diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

vii. Nodwyd cwestiwn a godwyd ynghylch y gwerthusiad cynaladwyaeth sy'n cael ei baratoi mewn perthynas â chyngor busnes / clustnodi grantiau. Nodwyd mai'r pecyn presennol oedd yn cael ei asesu a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau. Caiff unrhyw newid ei gynnwys yn y trefniadau newydd. Manylion i'w dosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio.

Casgliadau:

viii. **Derbyniwyd** yr adroddiad**.**

ix. **Cytunwyd** y bydd aelodau'r Grŵp Llywio'n derbyn diweddariad o'r wybodaeth ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ad-drefnu'r gwasanaeth Llygad Busnes.

x. Cytunwyd i ddosbarthu manylion ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer gwerthuso cynaladwyaeth.

Tasgau:

b) Diweddaru'r aelodau ynglŷn ag ad-drefniant Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r gwasanaeth Llygad Busnes.

Colin Morris 4 Gorffennaf 2008

c) Dosbarthu manylion y trefniadau ar gyfer gwerthuso cynaladwyaeth.

Colin Morris gynted â phosibl

05. Rhaglenni Ewropeaidd – diweddaru gwybodaeth

Trafodaeth:

i. Nodwyd y cais oddi wrth aelodau'r Grŵp Llywio am wybodaeth ynglŷn â'r 13 Mynegiant Diddordeb a gyflwynwyd o Ogledd Orllewin Cymru ar gyfer Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 – 2013.

ii. Nodwyd y cynnig gan David Joyner, sy'n aelod o'r Grŵp Llywio Blaenoriaeth 1 Themâu 1 a 2 Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 – 2013, i hysbysu'r aelodau am y pethau sy'n digwydd a'r prosesau cysylltiedig â datblygu ceisiadau llwyddiannus.

iii. Nodwyd pryderon y Grŵp Llywio ynghylch cymeradwyo prosiectau Cydgyfeirio rhanbarthol / cenedlaethol, a'r diffyg eglurdeb ynghylch sut y gweithredir y rhain yn lleol. Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i adrodd i'r Grŵp Llywio unwaith y derbynnir gwybodaeth.

iv. Nodwyd pryderon ynghylch y canran isel o gyflwyniadau sector preifat a thrydydd sector i'r rhaglenni Cydgyfeirio hyd yma a'r diffyg gwybodaeth am gyfleoedd o fewn y bidiau rhanbarthol mwy a allai fod o fudd i'r sectorau hyn.

v. Nodwyd fod mynegiant diddordeb Cyngor Sir Ynys Môn ar ran Awdurdodau Gogledd Orllewin Cymru yn symud ymlaen i gyfnod cynllun busnes y broses ymgeisio.

Casgliad:

vi. **Cytunwyd** i dderbyn gwybodaeth am y 13 Mynegiant Diddordeb o Ogledd Orllewin Cymru o fewn Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 – 2013 yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.

vii. **Cytunwyd** y dylid gofyn i David Joyner roi cyflwyniad i'r grŵp hwn ar waith Grŵp Llywio Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 – 2013.

viii. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth roi gwybodaeth i'r Grŵp Llywio am y cyfleoedd gweithredu sy'n deillio o brosiectau Cydgyfeirio rhanbarthol.

ix. **Derbyniwyd** yr adroddiad.

Tasgau:

ch) Darparu gwybodaeth am y 13 Mynegiant Diddordeb o fewn Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 -2013.

Ysgrifenyddiaeth erbyn 4 Gorffennaf 2008

d) David Joyner i roi cyflwyniad i aelodau'r Grŵp Llywio.

David Joyner I'w drefnu

dd) Cyflwyno gwybodaeth am y cyfleoedd i weithredu prosiectau o fewn y rhaglenni Cydgyfeirio.

Ysgrifenyddiaeth pan fydd ar gael.

06. Adroddiad Ôl-ofal

Trafodaeth

i. Nodwyd fod WEFO wedi cymeradwyo defnyddio cyllid Cymorth Technegol y Bartneriaeth i helpu a chefnogi cynaladwyaeth cynlluniau unigol.

ii. Nodwyd yr eglurhad a gafwyd gan Rhys Evans o'r broses o benodi ymgynghorwyr dan y cynllun Gwerthwch i Gymru gyda'r bwriad o ddatblygu fframwaith a methodoleg ar gyfer cyplysu'r lefel briodol o arbenigedd gydag anghenion noddwyr unigol. Nodwyd cais gan y Tad Deiniol am restr o enwau'r ymgynghorwyr a benodwyd, ynghyd â'r tâl am y gwasanaethau a ddarperir.

iii. Nodwyd cais gan Emyr Williams am wybodaeth ynglŷn â chadw dogfennau perthnasol i gyfnod y Rhaglen Amcan Un a chau Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Casgliad

iv. **Cytunwyd** i ddosbarthu rhestr o'r ymgynghorwyr a benodwyd, ynghyd â'r tâl am y gwasanaethau a ddarperir a chopi o'r brîff sy'n amlinellu gwaith yr ymgynghorwyr.

v. **Cytunwyd** i anfon gwybodaeth am ddatblygiadau mewn perthynas â chau rhaglenni Amcan Un a 5b Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i Emyr Williams

vi. **Derbyniwyd** yr adroddiad.

Tasgau

e) Dosbarthu'r rhestr ymgynghorwyr a'r wybodaeth ychwanegol a gytunwyd.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

f) Anfon gwybodaeth am gau rhaglenni Amcan Un a 5b Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i Emyr Williams.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

07. Adolygu delwedd a brand

Trafodaeth

i. Nodwyd fod WEFO wedi cymeradwyo'r defnydd o arian Cymorth Technegol y Bartneriaeth i ddiweddaru delwedd a brand y Bartneriaeth.

ii. Nodwyd cais gan yr Ysgrifenyddiaeth i benodi cynrychiolydd o bob sector a gynrychiolir ar y Grŵp Llywio i ffurfio gweithgor er mwyn symud ymlaen y gwaith o ddatblygu delwedd a brand newydd i'r Bartneriaeth. Bydd y ddelwedd a'r brand yn adlewyrchu llwyddiant y bartneriaeth, ac yn cadw mewn cof ei swyddogaeth yn y dyfodol.

iii. Nodwyd sylw a wnaed gan Alex Badley ynglŷn â'r angen i berthnasu prosiectau i'r rhaglen Amcan Un a gwneud pobl yn ymwybodol o hyn. Hefyd roedd angen gwneud y broses yn fwy agored fel y gall unigolion / grwpiau ymweld â phrosiectau llwyddiannus, siarad â'r noddwyr cysylltiedig, a rhannu arferion da wrth ddatblygu prosiectau.

Casgliad

iv. **Cytunwyd** i adolygu delwedd a brand y Bartneriaeth ac y dylai'r Ysgrifenyddiaeth symud pethau yn eu blaen drwy benodi ymgynghorwyr.

v. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn penodi aelod o bob sector i symud y gwaith yn ei flaen.

Tasgau

ff) Penodi ymgynghorwyr i lunio delwedd a brand newydd i'r Bartneriaeth.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

g) Gwahodd aelod o bob sector i fod yn aelod o'r gweithgor delwedd a brand.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

08. <u>Adolygiad blynyddol o'r aelodaeth</u>

Trafodaeth:

i. Nodwyd y cyflwynir adroddiad llawn ar yr adolygiad o'r aelodaeth i gyfarfod blynyddol cyffredinol y Bartneriaeth ym mis Medi. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau a gymeradwywyd i'r Cynllun Datblygu Gwledig (os llwydda).

ii. Nodwyd y cytunodd y Bartneriaeth i David Joyner fod yn aelod o'r Grŵp Llywio.

iii. Nodwyd fod y Bartneriaeth wedi cytuno i ofyn i aelodau'r sector Cymunedol ddewis aelod o'r rhestr dirprwyon i gymryd lle Dyfed Edwards ar y Grŵp Llywio.

iv. Nodwyd fod y Bartneriaeth angen cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd yn dilyn etholiadau'r cyngor ym mis Mai.

v. Nodwyd fod y tabl presenoldeb a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad yn anghywir. Y canran cywir oedd 28% ac nid 14% fel y nodwyd. Oherwydd hyn, argymhellodd yr aelodau ganran presenoldeb o 33% yn hytrach 25% fel yr hicyn ar gyfer ysgrifennu at yr aelodau llawn ynghylch eu presenoldeb mewn cyfarfodydd.

Casgliad:

vi. **Cytunwyd** i David Joyner gynrychioli Prifysgol Bangor ar y Grŵp Llywio

vii. **Cytunwyd** i gysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn am enw eu prif gynrychiolydd a'u dirprwy gynrychiolydd ar y Bartneriaeth.

viii. **Cytunwyd** i ofyn i'r Sector Cymunedol ddewis aelod o'r rhestr dirprwyon i gymryd lle Dyfed Edwards.

ix. **Cytunwyd** i lythyru Aelodau Llawn sydd wedi mynychu llai na 33% o gyfarfodydd y Grŵp Llywio.

Tasgau:

ng) Cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn am enw eu prif gynrychiolydd a'u dirprwy gynrychiolydd ar y Bartneriaeth.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

h) Dewis aelod o'r rhestr dirprwyon i gymryd lle Dyfed Edwards.

Aelodau'r Sector Cymunedol gynted â phosibl

i) Llythyru Aelodau Llawn sydd wedi mynychu llai na 33% o gyfarfodydd y Grŵp Llywio i'w hannog i fynychu.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL – ISADEILEDD AR GYFER BUSNES

09. Cyflwyniad gan Sian P Jones, Rheolwr Gofal Cwsmer a Marchnata, Cyngor Gwynedd - Stâd y Cyngor

Trafodaeth:

i. Derbyniwyd cyflwyniad ar stâd y Cyngor, ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 1.

ii. Cyfeiriwyd yn arbennig at;

a. Lefelau uchel o ddeiliaid a bod safleoedd yn brin.

b. Cynnydd o 10% yn yr ymholiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

c. Unedau a thiroedd sydd wedi ei gwerthu.

d. Gwelliannau i Stâd y Cyngor trwy gyllid Amcan 1.

e. Y Ffaith fod buddsoddiad preifat yn dilyn coridor yr A55.

iii. Cafwyd cwestiwn gan Y Tad Deiniol, ble cyfeiriodd at y broses ymgynghori oedd wedi cymryd lle cyn gwerthu'r Hen Orsaf, Y Felinheli. Nododd Sian fod Uned Eiddo'r Cyngor a'r Aelod Lleol wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad a bod adroddiad wedi ei wneud ar y safle oedd yn dangos fod costau cynnal a chadw uchel iawn yn debygol. Nododd Y Tad Deiniol fod aliniad trac yn mynd heibio'r safle a bod angen eu gwarchod, fel sydd yn cael ei nodi yn strategaethau Tracc a Taith.

iv. Nododd Alex Badley ei fod yn credu i'r Grŵp Llywio gytuno i lythyru'r cyngor yn gofyn i'r Bartneriaeth fod yn ymgynghorai mewn achos fod y Cyngor yn gwaredu asedau. Cytunwyd fod yr Ysgrifenyddiaeth yn gwirio'r cofnodion.

v. Cyfeiriodd Nia Davies, Cyngor Gwynedd fod nifer o safleoedd cyflogaeth wedi eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu Unedol a bydd hyn yn sail i'r hyn fydd yn cael ei adnabod yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nododd fod y cynllun yn hyrwyddo datblygiadau bychain ar ffiniau pentrefi a gyda buddsoddiad preifat gallai rhai symud yn ei blaenau.

Casgliadau:

vi. **Derbyn** y cyflwyniad

Tasgau:

l) Gwirio cofnodion am benderfyniad ynglŷn â llythyru am waredu asedau
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

10. Cyflwyniad gan John Adshead, Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cyd-destun Cenedlaethol a Gogledd Orllewin Cymru

Trafodaeth:

i Derbyniwyd cyflwyniad ar y Cyd-destun Cenedlaethol a'r Gogledd Orllewin, ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 2.

ii Cyfeiriwyd yn arbennig at;

- Buddsoddiad o £16m yng Ngogledd Cymru trwy gynllun busnes DE&T, gyda 75% yn cael ei fuddsoddi yn yr ardal Cydgyfeirio
- Heriau a'r cyfleoedd sydd i'r ardal.
- Fframwaith Eiddo Cymru
- Yr angen i ledaenu twf tua'r Gorllewin.
- Gydweithio gyda'r Sector Breifat i ddod ac Unedau a Thiroedd yn eu blaenau.

iii Trafodwyd yr angen i sicrhau cysylltiad 'Fiber Speed' i'r safleoedd cyflogaeth i gyd-fynd a'r buddsoddiadau yng nghyfnod cyntaf rhaglen Cydgyfeiriant. Nodwyd fod cyfleusterau o'r fath yn hanfodol bwysig i fusnesau sydd am gystadlu yn y byd modern.

iv Nododd Y Tad Deiniol ei fod yn anhapus gyda'r hyn gyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad yn cynnwys y model o ledaenu twf a'r ffaith nad oedd yn llwyr gyfforddus gyda'r ymgynghori ar y Cynllun Gofodol yn y Gogledd. Nododd John Adshead fod DE&T yn ymwybodol o'r pryderon a bod hyn yn cael ei drafod yn fewnol a bod cyfarfod wedi ei drefnu i geisio ymateb i'r pryderon.

v Nododd Bethan Russell Owen ei bod yn bryderus fod yna ormod o bwyslais ar ganoli twf, a hynny ar draul pentrefi ac ardaloedd gwledig. Cyfeiriodd John Adshead eu bod yn edrych ar ddatblygu prosiect peilot yn ardal Llŷn i edrych yn arbennig ar adfywio gwledig, gan gynnwys defnydd technoleg.

vi Cyfeiriodd Alex Badley ei fod yn falch o'r cyfeiriad yn y cyflwyniad i'r wasgfa ariannol bresennol trwy sefyllfa fregus yr economi, pwysodd fod angen dangos cefnogaeth i fusnesau newydd gan ddangos yr hyn sydd yn bosib. Nododd John Adshead fod cymorth ar gael trwy Cyllid Cymru o fewn y rhaglen newydd. Nododd Dewi Lewis ei fod yn ei rôl fel Uwch Arweinydd Portffolio Datblygu yn awyddus i drafod cyfleon ymhellach gyda Cyllid Cymru, byddai'n awyddus i wahodd Sian Lloyd Jones i fynychu cyfarfod o'r Grŵp Llywio yn y dyfodol.

Casgliadau:

vii **Derbyn** y cyflwyniad

viii **Cefnogi** cais i sicrhau cysylltiad 'Fiber Speed' i safleoedd cyflogaeth

ix **Nodi** pryder ynglŷn â phroses ymgynghori'r Cynllun Gofodol a'r model o ledaenu twf.

X **Cefnogi'r** cais i wahodd Sian Lloyd Jones i gyfarfod o'r Grŵp Llywio

Tasgau:

Ll) Llythyru Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyn a chysylltiadau 'Fiber Speed'

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

m) Gwahodd Sian Lloyd Jones, Cyllid Cymru i gyfarfod o'r Grŵp Llywio

Ysgrifenyddiaeth Pan ar gael

11. <u>Cyflwyniad gan Catrin Roberts, Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cyd-destun Canol Cymru</u>

Trafodaeth:

i. Derbyniwyd cyflwyniad ar y Cyd-destun Canolbarth Cymru, ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 3.

ii. Cyfeiriwyd yn arbennig at;

- Amcan Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru
- Safleoedd Cyflogaeth ym Meirionnydd ac amlinellwyd Datblygiadau Diweddar.
- Maes Awyr Llanbedr, ble nodwyd fod y broses tendro agored wedi digwydd a bod cwmni o'r sector breifat wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i'w brynu.

iii. Cafwyd trafodaeth ar y cyflwyniad, ble cyfeiriwyd at raddfeydd gosodiadau ym Meirionnydd, cynlluniau Cydgyfeiriant yn ardal Canolbarth Cymru. Nodwyd y bydd cynlluniau i fanteisio ar y cyllid sydd ar gael trwy Cydgyfeiriant yn cael eu datblygu yn y dyfodol.

iv. Cafwyd diweddariad gan Llŷr B Jones, Uwch Reolwr Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd gan gyfeirio at Fframwaith ar gyfer Tir ac Eiddo Cyflogaeth yng Ngwynedd. Cyfeiriodd fod y Cynllun Datblygu Unedol wedi adnabod safleoedd a bod adroddiad yr arolygydd yn ganolog iawn i ddatblygiadau pellach

v. Cynigodd Anne Lloyd Jones fod y Grŵp Llywio yn datgan cefnogaeth i brynwyr Maes Awyr Llanbedr, cefnogwyd y cynnig yn unfrydol ond nododd Alex Badley fod ganddo ychydig o amheuaeth ynglŷn â chynaladwyedd y cynllun a'r diwydiant.

vi. Crynhowyd yr holl drafodaethau gan Dewi Lewis i dair elfen;

- Yr angen i ledaenu twf.
- Yr angen i sicrhau lsadeiledd a safleoedd cynhwysfawr ar draws yr ardal
- Sicrhau fod 'Fiber Speed' ar gael yn y safleoedd cyflogaeth.

Casgliadau:

vii. **Derbyn** y cyflwyniad

viii. **Nodi** diweddariad Llŷr B Jones ar y Fframwaith ar gyfer Tir ac Eiddo Cyflogaeth yng Ngwynedd

ix. Cytunwyd i gynnig **Datganiad o Gefnogaeth** i brynwyr Maes Awyr Llanbedr.

Tasgau:

n) Datganiad o gefnogaeth i brynwyr Maes Awyr Llanbedr.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

12. Unrhyw Fater Arall

Trafodaeth:

i. Nododd Y Tad Deiniol ei fod yn bryderus dros ben nad ydi ymatebion i ymgynghoriad y Cynllun Gofodol wedi eu rhestru, ychwanegodd ei fod yn amheus os oedd yr ymatebion wedi cyrraedd pen eu taith a thrwy hynny wedi eu hymgorffori yn yr ymgynghoriad. Ategodd Bethan Russel Owen ei bod yn credu fod problem sylweddol yn yr ymgynghoriad, roedd hithau hefyd yn nodi pwysigrwydd mewnbwn y 3ydd sector. Ychwanegodd Alex Badley ei fod yn amheus o'r Asesiad Cynaladwyedd sydd ynghlwm gyda'r Cynllun Gofodol. Cytunwyd fod angen dod a'r sylwadau i sylw'r Gweinidog, addawodd John Adshead a Catrin Roberts fynegi pryder yr Aelodau i Llywodraeth y Cynulliad ac adrodd nôl cyn gynted a phosib.

ii. Cyfeiriodd Y Tad Deiniol at yr hyn sydd yn cael ei nodi yn Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer Ardal Gofodol Canolbarth Cymru, yn arbennig y cyfeiriad at flaenoriaethau gweithredu yn Blaenau Ffestiniog. Cafwyd caniatad Dewi Lewis i rannu datganiad ar ran Yn Ein Blaenau, gofynnodd i'r Grŵp Llywio ddangos cefnogaeth i'r datganiad (ceir copi o'r datganiad yn Atodiad 4). Cafwyd cefnogaeth yr Aelodau i'r datganiad. Nododd Dewi Lewis hefyd fod cyfeiriad at 'Blaenau Freight Terminal' mewn papur ymgynghori sydd wedi ei gyhoeddi gan Network Rail.

Casgliad:

iii. **Cytunwyd** i fynegi pryder yr Aelodau am y Cynllun Gofodol

iv **Cytunodd** yr Aelodau i gefnogi datganiad Yn Ein Blaenau

Tasgau:

o) Llythyru'r Gweinidog i leisio pryderon Aelodau'r Grŵp Llywio am y model o ledaenu twf, proses ymgynghori a'r Asesiad Cynaladwyedd sydd ynghlwm a'r Cynllun Gofodol.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio – 04 Gorffennaf 2008

C R Y N O D E B O ' R T A S G A U

a) Diwygio cofnodion cyfarfod 4 Ebrill 2008 i gynnwys enw Llŷr Huws Gruffydd ymhlith y rhai a oedd yn bresennol.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

b) Diweddaru'r aelodau ynglŷn ag ad-drefniant Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r gwasanaeth Llygad Busnes.
Colin Morris 4 Gorffennaf 2008

c) Dosbarthu manylion y trefniadau ar gyfer gwerthuso cynaladwyaeth.
Colin Morris gynted â phosibl

ch) Darparu gwybodaeth am y 13 Mynegiant Diddordeb o fewn Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 -2013.
Ysgrifenyddiaeth erbyn 4 Gorffennaf 2008

d) David Joyner i roi cyflwyniad i aelodau'r Grŵp Llywio.
David Joyner I'w drefnu

dd) Cyflwyno gwybodaeth am y cyfleoedd i weithredu prosiectau o fewn y rhaglenni Cydgyfeirio.
Ysgrifenyddiaeth pan fydd ar gael.

e) Dosbarthu'r rhestr ymgynghorwyr a'r wybodaeth ychwanegol a gytunwyd.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

f) Anfon gwybodaeth am gau rhaglenni Amcan Un a 5b Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i Emyr Williams.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

ff) Penodi ymgynghorwyr i lunio delwedd a brand newydd i'r Bartneriaeth.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

g) Gwahodd aelod o bob sector i fod yn aelod o'r gweithgor delwedd a brand.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

ng) Cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn am enw eu prif gynrychiolydd a'u dirprwy gynrychiolydd ar y Bartneriaeth.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

h) Dewis aelod o'r rhestr dirprwyon i gymryd lle Dyfed Edwards.
Aelodau'r Sector Cymunedol gynted â phosibl

i) Llythyru Aelodau Llawn sydd wedi mynychu llai na 33% o gyfarfodydd y Grŵp Llywio I'w hannog i fynychu.
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

l) Gwirio cofnodion am benderfyniad ynglŷn â llythyru am waredu asedau
Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

Ll) Llythyru Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyn a chysylltiadau 'Fiber Speed'

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

m) Gwahodd Sian Lloyd Jones, Cyllid Cymru i gyfarfod o'r Grŵp Llywio

Ysgrifenyddiaeth i'w drefnu

n) Datganiad o gefnogaeth i brynwyr Maes Awyr Llanbedr.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

o) Llythyru'r Gweinidog i leisio pryderon Aelodau'r Grŵp Llywio am y model o ledaenu twf, proses ymgynghori a'r Asesiad Cynaladwyedd sydd ynghlwm a'r Cynllun Gofodol.

Ysgrifenyddiaeth gynted â phosibl

Is-Grŵpiau'r Bartneriaeth

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	4ydd o Orffennaf 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Is-Grwpiau'r Bartneriaeth.
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Mae pum is-Grŵp wedi eu pennu gan aelodau'r Grŵp Llywio i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar weithgaredd yr is-grwpiau yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio.

2. Is-Grŵp gweithredu Llwyddo'n Lleol

2.1 Ceir diweddariad o weithgaredd yn Atodiad 1, ble ceir diweddariad ar ddatblygiad y cais Cydgyfeirio.

3. Is-Grŵp Datblygu Gwledig

3.1 Yn dilyn derbyn gwybodaeth fod pob un o'r cynlluniau oedd yn rhan o gynnig y Bartneriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig wedi llwyddo yn asesiad cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad, ceir cyflwyniad yn Eitem 06 Rhan 2 – Materion Strategol fydd yn amlinellu'r cynlluniau a thrafod y camau nesaf.

4. Is-Grŵp Cefnogi Busnes

4.1 Bydd yr Aelodau yn derbyn adroddiad llafar gan mai ar y 1af o Orffennaf cynhelir cyfarfod yr Is-Grŵp, nid oes yna bapurau ynghlwm.

5. Is-Grŵp Sgiliau

5.1 Ceir adroddiad llafar o'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod yr Is-Grŵp ar y 23ain o Fai, nid oes yna bapurau ynghlwm.

6. Gweithgareddau Adfywio Cymunedol

6.1 Ni cheir adroddiad ar weithgareddau y tro hwn.

7. Argymhelliad

7.1 Aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Atodiad 1

12 Llwyddo'n Lleol

BWLETIN (Gorffennaf 2008)

Enw'r Bartneriaeth:	**Partneriaeth Economaidd Gwynedd (Is-Grwp Llwyddo'n Lleol)**
Dyddiad y cyfarfod:	**d/p**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1. Cais Llwyddo'n Lleol – Cydgyfeirio

1.1 Rydym wedi cynnal cyfarfod yn ddiweddar rhwng y pedair sir (Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych) er mwyn cyd-lynu ymateb i sylwadau WEFO ar ein Datganiad o Ddiddordeb, ac yn gweithio i orffen y ddogfen a'i hail-gyflwyno

2. Ymweliad i Ganolfan Fusnes Ieuenctid Sandfields, Port Talbot

2.1 Rydym wedi bod yn ymweld â Chanolfan Busnes Ieuenctid Sandfields yn Port Talbot er mwyn datblygu cais Cydgyfeiriant am Ganolfan Sgiliau a Mentergarwch ar y cyd hefo Is-Grŵp Sgiliau PEG. Bydd adroddiad ar yr ymweliad yn cael ei gyflwyno i'r Is-Grŵp Sgiliau yn yr wythnosau nesaf.

3. Allbynnau 2008/09 yn Erbyn Targedau

3.1 Mae'r partneriaid allanol yn cyflwyno'u hallbynnau ar gyfer Chwarter 1 08/09 erbyn canol Mis Gorffennaf, ac felly byddem yn adrodd yn ôl ar allbynnau Chwarter 1 2008/09 yn y cyfarfod nesaf

Unrhyw faterion penodol i bartneriaethau eraill (nodwch pa un):

dim

Enw cydlynydd: Nia Swann Bowden

Rhif Ffôn: 01286 679774

NiaSwannBowden@gwynedd.gov.uk

Ebost:

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion:

Nia Swann Bowden

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	4ydd o Orffennaf, 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gryno ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013, yn benodol:

- Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2000 - 2006
- Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru - Iwerddon 2007 - 2013
- Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007 - 2013
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

2. Rhaglen Amcan 1

2.1 Ôl-ofal:
Mae rôl a chyfrifoldebau'r Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn darparu cyngor a chymorth i reolwyr prosiectau Amcan 1 yng Ngwynedd yn parhau. Tynnir sylw Aelodau at Atodiad 1 ble ceir rhestr o'r ymgynghorwyr sydd wedi ei cynnwys ar fframwaith ymgynghorwyr ar gyfer cynnig gwasanaeth ôl-ofal, fel y cyfeirwyd ato yng nghyfarfod Mehefin o'r Grŵp Llywio ynghyd â chopi o'r briff.

2.2 Cyhoeddusrwydd:
Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio'n ymarferol i sicrhau cyhoeddusrwydd cadarnhaol yn lleol ar gyfer y rhaglen. Cafwyd erthygl a hysbyseb ar ran y Bartneriaeth Economaidd yn cyfeirio at lwyddiannau'r rhaglen Amcan 1 yng Ngwynedd yn y Western Mail ar yr 11eg o Fehefin.

3. Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru / Iwerddon

3.1 Lansiwyd Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 - 2013 yn swyddogol yn Llandudno ar 7fed o Ragfyr 2007. Caeodd yr alwad gyntaf am geisiadau ar y 18fed o Ionawr. Deallir bod 52 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi eu cyflwyno yn ystod yr alwad gyntaf gyda 13 o'r rhain o'r Gogledd. Bydd Aelodau yn derbyn rhagor o wybodaeth ar y cynlluniau yn y cyfarfod. Rhagwelir bydd galwad am geisiadau ddwywaith y flwyddyn, gyda'r nesaf wedi ei raglennu i gychwyn ym mis Gorffennaf.

3.2 Atgoffir aelodau y dylai unrhyw un sydd a diddordeb yn y rhaglen gysylltu a Swyddog Datblygu'r Gogledd - Roger Seddon yn WEFO ar 01492 542594 neu roger.seddon@wales.gsi.gov.uk

4. Rhaglen Cydgyfeirio

4.1 Deallir fod 15 prosiect wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn ar draws elfennau ERDF ac ESF o'r rhaglen. Tynnir sylw'r aelodau fod hyn yn cynnwys 9 prosiect trwy'r elfen ERDF (cyfateb a 10.5% o'r cyllid sydd ar gael) a 6 trwy'r elfen ESF (cyfateb a 8.1% o'r cyllid sydd ar gael)

4.2 Nodir isod restr o'r cynlluniau sydd wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn trwy'r rhaglen, ynghyd a'r prif noddwr a gwerth y prosiectau. Tynnir sylw'r Aelodau fod gwybodaeth am weithrediad y cynlluniau yn ansicr, gyda'r wybodaeth am y cynlluniau yn parhau i fod yn aneglur.

ERDF

- Prosiect Datblygu Cynhwysedd Ymelwa ar Wybodaeth – (DE&T) = £22.8m
- Prosiect Trosglwyddo a Masnacheiddio Gwybodaeth – (DE&T) = £27.7m
- Menter – Cychwyn Busnes – (DE&T) = £28.0m
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Bwyd Cymreig – (Furnace Farm) = £5.8m
- 2 Brosiect JEREMIE -Cyllid Cymru – (WAG DE&T) = £119.0m
- Prosiect cefnogi Mentrau Cymdeithasol – (Canolfan Gydweithredol Cymru) = £7.0m
- 2 Brosiect Cymorth Technegol wedi ei gysylltu i'r Timau Ewropeaidd Gofodol – (DE&T a CGGC) = £10.0m

ESF

- Prosiect Skill Build – (DCELLS) = £37.0m
- Prosiect Prentisiaeth Fodern – Sgiliau o safon Fyd-eang – (DCELLS) = £70.0m
- Prosiect Prentisiaeth Fodern – Sgiliau lefel uwch – (DCELLS) = £3.5m
- Prosiect Want 2 Work – (Canolfan Byd Gwaith) = £32.8m
- 2 Brosiect Cymorth Technegol wedi ei gysylltu i'r Timau Ewropeaidd Gofodol – (DE&T a CGGC) = £10.0m

4.3 Mae'r gwaith o baratoi prosiectau ar lefel Gwynedd a'r Gogledd Orllewin yn mynd rhagddi, fel y cytunwyd yn Seminar Pwyllgor Craffu Datblygu ar y 26ain o Chwefror.

4.4 <u>Fframweithiau Strategol:</u>
Mae holl Fframweithiau Strategol ERDF bellach gyda statws 'wedi cytuno' arnynt ar wefan WEFO, yn ogystal â holl Fframweithiau Strategol ESF sydd hefyd gyda'r statws 'wedi cytuno'. Deallir fod gweithgaredd i'w weld yn datblygu yng nghynt trwy'r Fframweithiau Thematic o'u cymharu a'r Fframweithau Gofodol.

4.5 Tynnir sylw'r Aelodau fod posibilrwydd y bydd cyllid adfywio ffisegol ar gael i Blaenau Ffestiniog a Bermo trwy law Blaenoriaeth 5 Them 1 sef y Fframwaith

Gofodol – Adfywio Cynaliadwy. Daw hyn gan fod yn bellach gyfeiriad at y ddwy dref yng nghdestyn yr Amcanion Strategol sydd wedi eu hadnabod o fewn y fframwaith ar gyfer Canolbarth Cymru. Atgoffir Aelodau fod unrhyw gynllun yn gorfod bod yn rhan o strategaeth adfywio integredig. Ceir copi o'r Fframwaith wedi ei diweddaru drwy ddilyn i linc isod;
http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/CentralSRFramework-Agreed1806084653.pdf

4.5 Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau:
Mae 822 o Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau wedi eu cofnodi ar wefan WEFO hyd yma. Deallir fod yna 260 o geisiadau am ffurflen datganiad o ddiddordeb wedi ei chyflwyno i WEFO, o'r rhain mae 144 wedi cael eu cyflwyno am benderfyniad. Ymddengys fod 23% o'r rhain gan y Cynulliad, 35% gan Awdurdodau Lleol, 15% o'r sector breifat a 27% o'r 3ydd sector.

4.6 Tynnir sylw'r Aelodau fod gwybodaeth am gynlluniau sydd wedi cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar gael ar wefan WEFO drwy'r cyswllt isod;

http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/Projects-approved-and-EOIs-submitted-for-website2600.pdf

4.7 Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth
Tynnir sylw'r Aelodau fod Cynghohrau Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn wedi arwyddo cytundeb arwyddocaol ar ddydd Gwener yr 20fed o Fehefin i gydweithio ar y Rhaglen Cydgyfeiriant yn ogystal a rhaglenni Ewropeaidd allweddol eraill.

4.8 Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sicrhau bod y pedair sir yn cydweithio er mwyn sicrhau bod gogledd orllewin Cymru yn gwneud y mwyaf o'r cyfleon ddaw yn sgil y rhaglenni.

4.9 Arwyddwyd y cytundeb gan Arweinwyr pob awdurdod lleol a'u Prif Weithredwyr a'i fwriad yw sicrhau bod prosiectau ar y cyd yn cael eu gweithredu'n effeithlon ar gyfer Cydgyfeirio ac Interreg.

4.10 Cafwyd arweiniad gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru y dylai ardaloedd gydweithio er mwyn datblygu prosiectau Cydgyfeirio. Mae'r Cynghorau yn gobeithio y bydd arwyddo'r cytundeb yn eu galluogi i gwrdd a'r gofynion ac i weithredu'r prosiectau pwysig sydd wedi eu hadnabod eisoes.

5. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

5.1 Derbynwyd gwybodaeth ar yr 20fed o Fehefin fod pob un o'r cynlluniau oedd yn rhan o gynnig y Bartneriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig wedi llwyddo yn asesiad cynlluniau Llywordaeth y Cynulliad, ceir cyflwyniad yn Eitem 06 o fewn Rhan 2 – Materion Strategol fydd yn amlinellu'r cynlluniau a thrafod y camau nesaf.

6. Argymhelliad

6.1 Aelodau'r Bartneriaeth i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Papurau cefndir Prosiectau CDG

Cynllun Datblygu Gwledig 2007 - 2010: Cynigion Gwynedd

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	23 Tachwedd 2007
PWRPAS:	Derbyn cefnogaeth Aelodau i gynnwys cynlluniau a chynllun busnes arfaethedig Gwynedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig yn y cyfnod 2007 - 2010
ARGYMHELLIAD:	Cymeradwyo'r cynlluniau unigol a'r cynllun busnes i'w cyflwyno i Llywodraeth Cynulliad Cymru
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

01. CEFNDIR

01.1 Fel mae'r Aelodau yn ymwybodol, ynghyd â'r Rhaglen Cydgyfeirio (olynydd Amcan 1) a'r Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol (olynydd Interreg III) y Cynllun Datblygu Gwledig fydd un o'r prif raglenni Ewropeaidd fydd yn weithredol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2007 - 2013.

01.2 Gweithredir y Cynllun drwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd i Ddatblygiad Gwledig (EAFRD). Nid yw'n rhan o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ERDF a ESF).

01.3 O fewn y Cynllun Datblygu Gwledig ceir pedair 'Echel' o weithgaredd:

- Echel 1: Cynyddu gallu'r sectorau amaeth a choedwigaeth i gystadlu
- Echel 2: Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad
- **Echel 3: Gwella ansawdd bywyd yn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi wledig**
- **Echel 4: Cefnogaeth i gynlluniau datblygu gwledig arloesol, cydweithredol, traws-sector a rhwydweithiol yn deillio o lawr gwlad (methodoleg 'Leader')**

01.4 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gweithredu yn genedlaethol ar Echel 1 ac Echel 2; ond gwahoddwyd ceisiadau gan Bartneriaethau lleol (ar lefel ardal Awdurdod Lleol) i weithredu Echel 3 ac Echel 4 yn eu hardal. Mae dwy gam i'r drefn ymgeisio:

- CAM UN: Cyflwyno 'Strategaeth Datblygu Lleol' a threfn gweithredu leol ar gyfer 2007 - 2013 (30 Mawrth 2007)
- **CAM DAU: Cyflwyno 'Cynllun Busnes' manwl a ceisiadau prosiect unigol ar gyfer hanner cyntaf y rhaglen: 2007 - 2010 (30 Tachwedd 2007)**

01.5 Cyflwynwyd cais ar gyfer cam un y drefn ymgeisio gan Cyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd ar 30 Mawrth 2007. Derbyniodd y Bartneriaeth Economaidd gadarnhad fod Gwynedd wedi llwyddo yng ngham cyntaf y drefn ymgeisio gan Llywodraeth Cynulliad Cymru 30 Gorffennaf 2007

ar ynghyd â gwahoddiad i gyflwyno cais i ail gam y drefn ymgeisio erbyn 30 Tachwedd 2007.

02. STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL GWYNEDD

02.1 Cydnabuwyd yn gynnar yn y broses o ystyried sut i weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd, pwysigrwydd sicrhau fod y rhaglen yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a bod pob ymdrech i osgoi dyblygu darpariaeth bresennol.

02.2 I sicrhau cyfranogiad rhanddeiliad i'r broses o adnabod blaenoriaethau cynhaliwyd Gweithdy gan y Bartneriaeth ar 08 Ionawr 2007. Gwahoddwyd Aelodau ac Eilyddion Grŵp Llywio'r Bartneriaeth o 2006 a 2007-2010 yn ogystal â chyn aelodau'r Bartneriaeth Llwyddo'n Lleol, aelodau Grŵp Rheoli cynllun Menterra, Tîm Adfywio Trawsadrannol Cyngor Gwynedd ac unigolion eraill allweddol. Gofynnwyd i aelodau'r Gweithdy gynnig eu barn ar y prif heriau yn wynebu Gwynedd wledig, y prif fesurau dylid eu cynnwys yn y Strategaeth Datblygu Lleol a'r prif grwpiau targed.

02.3 Ynghyd â chasgliadau'r Gweithdy ystyriwyd canlyniadau nifer o astudiaethau strategol diweddar gan gynnwys astudiaeth diweddar gwmni Esys o'r newidiadau tebygol i gyfansoddiad economi Gwynedd a chasgliadau astudiaeth Gwynedd Yfory Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd. O ganlyniad, sefydlwyd y prif themâu canlynol ar gyfer Strategaeth Datblygu Lleol Gwynedd:

- **Mentergarwch**
- **Cynnyrch lleol**
- **Mentrau amgylcheddol**
- **Ynni adnewyddol**
- **Diwydiannau creadigol**

02.4 Yn ychwanegol, cytunwyd fod **datblygu capasiti cymunedol**, **cefnogi teuluoedd fferm**, **datblygu delwedd gadarnhaol o Wynedd** a **chyfleon i'r sector twristiaeth** yn faterion perthnasol ellid eu hystyried yn themâu llorweddol sy'n berthnasol i bob un o'r prif themâu.

02.5 Cytunwyd fod pob un o'r prif themâu yn cael eu hystyried yn feysydd sy'n berthnasol i Echel 3 o'r Cynllun Datblygu Gwledig ond, fod adnoddau gyfyng Echel 4 yn cael eu canolbwyntio ar feysydd **cynnyrch lleol**, **mentrau amgylcheddol** ac **ynni adnewyddol** gan fod sgôp pellach yn y meysydd hyn ar gyfer gweithredu cynlluniau arloesol, hyrwyddo cydweithrediad a datblygu cynlluniau sy'n weithredol ar draws y themâu.

03. GWEITHREDU'R CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG YNG NGWYNEDD

03.1 Yn ogystal â Strategaeth Datblygu Lleol, roedd canllawiau Cam 1 y drefn ymgeisio yn nodi'r angen i adnabod y canlynol:

- **Partneriaeth leol** i reoli a gweithredu Echel 3 y rhaglen ac i dderbyn cyfrifoldeb am gyflawni'r Strategaeth Datblygu Lleol; a,

- **Grŵp Gweithredu Lleol (LAG)** i ddatblygu, reoli a gweithredu Echel 4 y rhaglen gan gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Datblygu Lleol.

03.2 Mae'r Bartneriaeth eisoes wedi cytuno i'w Grŵp Llywio ymgymryd â'r rôl o fod yn Bartneriaeth Lleol i Wynedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. Nodir yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad gall y Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Echel 4 fod yn sefydliad unigol sy'n gyfrifol am ddatblygu a gwireddu a chydlynu gweithgaredd o fewn yr Echel neu fe all y Grŵp arwain ar ddatblygu a chydlynu gweithgaredd yn unig gan gytundebu â sefydliad(au) eraill i gyflawni.

03.3 Yn achos nifer o siroedd ledled Cymru, ble mae'r Rhaglen Leader wedi bod yn weithredol, mae sefydliad datblygu gwledig addas (e.e. Menter Môn ar Ynys Môn) eisoes yn bodoli gall fabwysiadu'r cyfrifoldeb am Echel 4 ar ran Partneriaeth leol. Fodd bynnag, nid oedd endid addas yn bodoli yng Ngwynedd bellach, felly sefydlwyd Grŵp Gweithredu Lleol o'r newydd yn Is-Grŵp i Partneriaeth Economaidd Gwynedd (yr Is-Grŵp Datblygu Gwledig).

03.4 Mae aelodaeth yr Is-Grŵp yn cynnwys arbenigwyr unigol o sefydliadau perthnasol sydd wedi arwain ar ddatblygu cynnwys ceisiadau Gwynedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig rhwng 2007 a 2010 ac mi fydd yn cydlynu gweithredu'r cynlluniau gan gytundebu â sefydliad(au) eraill i gyflawni petai'r ceisiadau yn llwyddiannus. Credir y bydd y strwythur hwn yn sicrhau cydlynu a chyfathrebu clir rhwng y Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredu ac yn cynnig y cyfle gorau i wneud y gorau o'r arbenigedd sy'n bodoli o fewn sefydliadau Gwynedd.

03.5 Roedd hefyd yn ofynnol pennu **Corff Arweiniol** i gefnogi'r Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredu Lleol drwy ddarparu amryw wasanaethau, gan gynnwys, gwasanaeth ysgrifenyddol, cefnogi datblygiad a gweithredu prosiectau unigol, cynnig arweiniad i brosiectau yn chwilio am gefnogaeth o'r rhaglen, monitro cynlluniau unigol a monitro a yw'r Strategaeth Datblygu Lleol yn cael ei gyflawni. Mae Bwrdd Cyngor Gwynedd wedi cytuno, mewn egwyddor, i gynnig ei hun fel Corff Arweiniol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i sylw'r Bwrdd ar 18 Rhagfyr 2007.

03.6 Bydd peth adnoddau yn cael eu darparu gan y Cynllun Datblygu Gwledig i gefnogi gwaredu'r dyletswyddau (cymorth technegol) ac anelir i wneud y gorau o adnoddau presennol y Cyngor a'n profiad o weithredu'r Rhaglen Amcan 1 a gweinyddu'r Gronfa Adfywio Lleol. Ceir manylion pellach o sut fwriedir cyflawni'r gofynion yn hwyrach yn yr adroddiad

03.7 Ceisir crynhoi'r strwythurau gweithredu o fewn diagram isod:



04. CRYNODEB O GYNLLUNIAU ARFAETHEDIG GWYNEDD 2007 - 2010

04.1 Yn dilyn derbyn gwahoddiad gan Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cais ar gyfer Cam 2 broses ymgeisio'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngorffennaf 2007 mae'r Is-Grŵp Datblygu Gwledig wedi cwrdd ar 6 achlysur i arwain datblygiad cynigion Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2007 i 2010 ac adroddwyd yn rheolaidd i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth ar gynnydd yn y gwaith gan geisio mewnbwn Aelodau yn wrth i gynlluniau esblygu. Seliwyd y cynlluniau ar ganlyniadau'r Gweithdy Datblygu Gwledig gynhaliwyd yn Ionawr 2007 gan ddatblygu'r themâu a gynigwyd yn y Strategaeth Datblygu Lleol.

04.2 Nid yw'r adnoddau ar gael o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn anferthol (gweler isod) ond roedd aelodau'r Is-Grŵp Datblygu Gwledig yn awyddus i sicrhau datblygwyd cyfundrefn ar draws y cynlluniau oedd yn:

- taro cydbwysedd rhwng bod yn rhesymol ac yn ymarferol wrth barhau i fod yn uchelgeisiol (dylid nodi fod y drefn ymgeisio yn un gystadleuol)
- gweddu â dymuniadau strategol y Bartneriaeth Economaidd
- yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau unigol yng Ngwynedd sicrhau mynediad i adnoddau i gyflawni dyheadau a syniadau yn codi o lawr gwlad

Cyllidebau RDP (amcangyfrif yn seiliedig ar ddamcaniaethau)

€ = £ 0.67

Echel 3	€	£	109,000,000.00				
		£	73,030,000.00				
18 ardal		£	4,057,222.22	yr ardal			
7 mlynedd		£	579,603.17	y flwyddyn	x3	£	1,738,809.52
Gweinyddu @ 15%		£	86,940.48	y flwyddyn	x3	£	260,821.43
GWEITHREDU		£	492,662.70	y flwyddyn	x3	£	1,477,988.10

Echel 4	€	£	45,000,000.00				
		£	30,150,000.00				
18 ardal		£	1,675,000.00	yr ardal		£	5,025,000.00
7 mlynedd		£	239,285.71	y flwyddyn	x3	£	717,857.14
Gweinyddu @ 20%		£	47,857.14	y flwyddyn	x3	£	143,571.43
GWEITHREDU		£	191,428.57	y flwyddyn	x3	£	574,285.71

CYFANSWM Echel 3 a Echel 4 £ 2,052,273.81

04.3 Er mwyn cyflawni newid cynaliadwy a hir dymor yn ardaloedd gweledig Gwynedd ystyriwyd y cynlluniau yn rhan o broses o greu llwyddiant ac ysgogi newid meddylfryd:



04.4 I gyflawni dyheadau'r Bartneriaeth mae'r Is-Grŵp Datblygu Gwledig yn argymell i'r Grŵp Llywio fod chwe chais prosiect yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad:

Echel 3

- Creu diwylliant mentrus (Llwyddo'n Lleol)
- Cronfa Galluogi Menter Wledig
- Cymunedau Cynhyrchiol Gwynedd

Echel 4

- Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Cynnyrch amaethyddol a/neu goed primaidd a deilliadol
- Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Dim yn gynnyrch amaethyddol (cynnyrch lleol ac ynni adnewyddol)
- Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Amgylcheddol

04.5 Crynodeb costau gweithgaredd:

Cynllun / *Project*	Echel 3 / *Axis 3*	Echel 4 / *Axis 4*	Cydariannu / *Match Funding*	CYFANSWM COST / *TOTAL COST*
Llwyddo'n Lleol / *Llwyddo'n Lleol*	£ 534,400.00	£ -	£ 133,600.00	£ 668,000.00
Cronfa Galluogi / *Enabling Fund*	£ 780,000.00		£ 720,000.00	£ 1,500,000.00
Cymunedau Cynhorchiol / *Productive Communities*	£ 560,000.00	£ -	£ 152,000.00	£ 712,000.00
Arloesi (amaeth) / *Innovation (agriculture)*	£ -	£ 308,550.00	£ 117,450.00	£ 426,000.00
Arloesi (dim amaeth) / *Innovation (not agriculture)*	£ -	£ 143,800.00	£ 56,200.00	£ 200,000.00
Arloesi (amgylchedd) / *Innovation (environment)*	£ -	£ 143,800.00	£ 77,360.00	£ 221,160.00
CYFANSWM / *TOTAL*	£ 1,874,400.00	£ 596,150.00	£ 1,256,610.00	£ 3,727,160.00

04.6 Crynodeb canlyniadau (anghyflawn):

- Nifer o fentrau micro wedi'u cefnogi yn ariannol 130
- Nifer o fentrau micro wedi'u cynghori a'u cefnogi 185
- Nifer o unigolion neu grwpiau sydd wedi derbyn cymorth i ddatblygu syniad am gychwyn menter (pre-start) 85
- Nifer o bobl yn cymryd rhan mewn hyfforddiant 1,000
- Nifer o swyddi gros wedi'u creu 101
- Nifer o swyddi wedi'i diogelu 194
- Nifer o fentrau wedi'u creu 102
- Nifer o ddaliadau amaethyddol sydd yn cyflwyno cynnyrch neu dechnoleg newydd 60

05. CYNLLUNIAU ECHEL 3

05.1 Echel 3: *Gwella ansawdd bywyd yn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi wledig*

- Cefnogi teuluoedd amaethyddol i arallgyfeirio i weithgareddau eraill
- Cefnogaeth ar gyfer creu a datblygu busnesau bychain
- Annog gweithgareddau twristiaeth
- Gwasanaethu sylfaenol i'r economi a'r boblogaeth
- Adnewyddu a datblygu pentrefi
- Gwarchod ac uwchraddio treftadaeth wledig
- Hyfforddiant a gwybodaeth i actorion economaidd
- Datblygu a defnyddio sgiliau

05.2 **Creu diwylliant mentrus (Llwyddo'n Lleol):**

Nod: Ysgogi newid diwylliannol gan annog a hwyluso mentergarwch yng nghymunedau gwledig

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£668,000
Cydariannu:	EAFRD	£534,400
	Cyngor Gwynedd	£133,600

Amlinelliad gweithgaredd:
- magu hyder drwy sesiynau a gweithgareddau wedi eu targedu i grwpiau penodol
- hwyluso'r broses o adnabod cyfleon i fentro o fewn cymunedau gwledig a sbarduno syniadau am fentrau gan unigolion / grwpiau i ymateb iddynt
- darparu cefnogaeth graddfa fechan (bwrsariaeth - £1,000) i dreialu syniad am fenter / blasu a phrofi mentergarwch (a thrwy hynny paratoi unigolion a grwpiau i gymryd mantais o'r gefnogaeth ar gael drwy law'r Gronfa Galluogi)

05.3 **Cronfa Galluogi Menter Wledig:**

Nod: Hwyluso a galluogi menter yng nghymunedau gwledig Gwynedd

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£1,500,000
Cydariannu:	EAFRD	£780,000
	Ymgeiswyr (i'w danysgrifio gan Cyngor Gwynedd)	£700,000
	Cyngor Gwynedd	£20,000

Amlinelliad gweithgaredd:
- Sefydlu rheoli a gweithredu ffynhonnell o nawdd ariannol a chymorth ymarferol (hyfforddiant, mentora ayyb) i hwyluso menter wledig gan:
  - unigolion / cwmnïau (all fod yn fusnes newydd neu'n fenter newydd gan fusnes sy'n bodoli)
  - grwpiau o fewn cymunedau (all fod yn grwpiau cymunedol presennol neu'n grwpiau o ddiddordeb anffurfiol)

- Darparu cymorth ymarferol i fentro ym meysydd sy'n perthyn i'r themâu o fewn y Strategaeth Datblygu Lleol. Ymglymir y ddarpariaeth o nawdd (50% hyd ar £10,000) i ymrwymiad i dderbyn cymorth pellach megis hyfforddiant.

05.4 **Cymunedau Cynhyrchiol:**

Nod: Cynyddu'r budd i gymunedau gwledig Gwynedd yn deillio o gynnyrch ac asedau unigryw'r sir

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£712,000
Cydariannu:	EAFRD	£560,000
	Cyhoeddus (i'w danysgrifio gan Cyngor Gwynedd)	£106,000
	Cyngor Gwynedd	£20,000

Amlinelliad gweithgaredd:

- 'Cynnig Gwynedd' - sicrhau'r gwerth mwyaf o rinweddau unigryw Gwynedd gan uchafu'r fantais economaidd i drigolion y sir - yn cynnwys sefydlu 12 o Pwyntiau Gwybodaeth Lleol
- Cynnyrch Lleol: cynorthwyo cynhyrchwyr Gwynedd (bwyd, crefftau, celfyddydau, gweithgynhyrchu ayyb) ym meysydd sy'n perthyn themâu'r Strategaeth Lleol gynyddu gwerth eu hallbwn
- 'Theatr y Gwyllt' - sefydlu 3 man gwylio digidol ar gyfer bywyd gwyllt, atyniadau ayyb

06. CYNLLUNIAU ECHEL 4

06.1 Echel 4: *Cefnogaeth i gynlluniau datblygu gwledig arloesol, cydweithredol, traws-sector a rhwydweithiol yn deillio o lawr gwlad (methodoleg 'Leader')*

- Gweithgareddau partneriaeth ymysg rhanddeiliad
- Hunaniaeth ardal a datblygu cynnyrch newydd
- Yr amgylchedd naturiol
- Gwasanaethau gwledig cynaliadwy
- Gweithgareddau awyr agored, datblygu twristiaeth a lles

06.2 **Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Cynnyrch amaethyddol a/neu goed primaidd a deilliadol**

Nod: Sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer annog a hwyluso arloesedd gan unigolion ac, yn bennaf, grwpiau gyda diddordeb cyffredin

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£426,000
Cydariannu:	EAFRD	£308,550
	Ymgeiswyr (i'w danysgrifio gan Cyngor Gwynedd)	£53,750
	Cyngor Gwynedd	£63,700

Amlinelliad gweithgaredd:

- Ymchwil cychwynnol i'r cyfleoedd
- CAM 1: diddori ac ymrwymo cyfranogwyr - cynhyrchu syniadau
- CAM 2: cefnogaeth ymarferol ac ariannol i ddatblygu a threialu syniadau
- CAM 3: cymorth i fasnacheiddio syniad newydd

06.3 **Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Dim yn gynnyrch amaethyddol (cynnyrch lleol ac ynni adnewyddol)**

Nod: Sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer annog a hwyluso arloesedd gan unigolion ac, yn bennaf, grwpiau gyda diddordeb cyffredin

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£200,000
Cydariannu:	EAFRD	£143,800
	Ymgeiswyr (i'w danysgrifio gan Cyngor Gwynedd)	£27,000
	Cyngor Gwynedd	£29,200

Amlinelliad gweithgaredd:

- Ymchwil cychwynnol i'r cyfleoedd
- CAM 1: diddori ac ymrwymo cyfranogwyr - cynhyrchu syniadau
- CAM 2: cefnogaeth ymarferol ac ariannol i ddatblygu a threialu syniadau
- CAM 3: cymorth i fasnacheiddio syniad newydd

06.4 **Hyrwyddo newid yn yr economi wledig drwy arloesi: Yr amgylchedd naturiol a rheolaeth tir**

Nod: Sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer annog a hwyluso arloesedd gan unigolion ac, yn bennaf, grwpiau gyda diddordeb cyffredin

Cyfnod: Ebrill 2008 i Ragfyr 2010

Cost:		£199,300
Cydariannu:	EAFRD	£143,800
	Ymgeiswyr (i'w danysgrifio gan Cyngor Gwynedd)	£62,500
	Cyngor Gwynedd	£14,860

Amlinelliad gweithgaredd:

- Ymchwil cychwynnol i'r cyfleoedd
- CAM 1: diddori ac ymrwymo cyfranogwyr - cynhyrchu syniadau
- CAM 2: cefnogaeth ymarferol ac ariannol i ddatblygu a threialu syniadau

07. CYNLLUN BUSNES GWYNEDD 2007 - 2010

07.1 Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad mae peth darpariaeth ar gael drwy law'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer costau yn gysylltiedig gyda gweinyddu a gweithredu'r rhaglen yn yr ardal leol.

07.2 Mae'r ddarpariaeth fydd ar gael yn seiliedig ar gyfran o gostau prosiectau unigol (15% yn achos Echel 3 ac 20% ar gyfer Echel 4). Nid oes angen adnabod cydariannu ar gyfer y gweithgareddau hyn.

07.3 Yn bresennol mae'r gyfradd o gynlluniau arfaethedig Gwynedd yn cyfateb â £511,252 (£341,820 o Echel 3 ac £169,432 o Echel 4)

07.4 Amgeir cais cynllun busnes drafft Gwynedd yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Bydd cadarnhau manylion cynnwys y cynllun yn ddibynnol ar gostau terfynol prosiectau unigol, ond rhagdybir sefydlu tîm i weithredu'r rhaglen yng Ngwynedd ynghyd a darparu cyllid ar gyfer costau yn gysylltiedig â chynnal Partneriaeth Economaidd Gwynedd a gwireddu'r rhaglen:

- Cydlynydd
- 2 x swyddog maes
- Swyddog Monitro
- Swyddog Cefnogol

08. ARGYMHELLIAD

08.1 Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn cymeradwyo'r cynlluniau unigol i'w cyflwyno i Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 30 Tachwedd 2007.

08.2 Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn dirprwyo'r hawl i swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth barhau i ddatblygu'r ceisiadau hyd eu cyflwyno.

08.3 Fod Aelodau'r Grŵp Llywio yn cymeradwyo bwriadau'r cynllun busnes gan ddirprwyo'r hawl i swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth barhau i ddatblygu'r cynllun hyd ei gyflwyno.